



Ein Treftadaeth  
Our Heritage

# Ynys Enlli



**Cyfarwyddiadau: Os am ymweld ag Ynys Enlli cysylltwch â [www.bardseyboattrip.com](http://www.bardseyboattrip.com) 07971769895**

*Yn y môr mae angor i mi – drwy swae*

*Dŵr y Swnt, caf Enlli;*

*Gall cwch tua'i heddwch hi*

*Wneud i ewyn ddistewi.*

### **Myrddin ap Dafydd**

Bu Ynys Enlli yn dynfa i bererinion ers canrifoedd cynnar Cristnogaeth a heddiw bydd yn denu'r sawl sy'n dymuno cael encil.

Mae'n gorwedd cwta 3km (1.75m) i'r de orllewin o ben eithaf Llŷn. Rhyngddi hi â'r Tir Mawr mae'r Swnt gyda'i lanw a'i lif brochus. Hwn sydd wedi rheoli pererindota erioed.

Mae'r gwastatir yn rhedeg ar hyd yr ynys (2.5km) ar ei hochr orllewinol o Ben Diban i Benrhyn Gogor a bydd Mynydd Enlli (167m) yn gwarchod hwnnw rhag y gwynt dwyreiniol

Daeth yn eiddo i Arglwyddiaeth Newborough yn nechrau'r 18fedG ac yn yr 1870au cafodd y tai a'r buarthau cadarn eu hadeiladu. Ond ers 1979 Ymddiriedolaeth Ynys Enlli yw ei pherchennog. Mae'n lle hynod oherwydd ei hanes a'i

bywyd gwyllt ac ar sail hyn mae'n dynfa o bwys i haneswyr, naturiaethwyr yn ogystal ag ymwelwyr.

Fferm weithredol yn magu defaid a gwartheg duon Cymreig ydi Enlli ac mae'r ffermwr a'i deulu yn byw yn Dyno Goch. Bydd adarwyr yn byw yng Nghristin a warden yr ynys yn Nhŷ Nesa. Daw Ernest Evans, brodor o Enlli, a'i wraig, Christine, y bardd Saesneg, yma i dreulio'r haf yn Nhŷ Nesa.

Cafodd arfau cerrig eu darganfod ar yr arfordir gorllewinol a hefyd ar lethrau gorllewinol y mynydd sy'n dystiolaeth fod yma dai yn ystod yr Oes Haearn. Felly rhaid bod pobl wedi byw yma ers dros 4,000 o flynyddoedd.

Roedd yn Enlli boblogaeth ffyniannus o gant a mwy yn niwedd y 19egG a dechrau'r 20fedG. Roedd ganddynt eu capel a'u hysgol a hwyliant cyn belled â Lerpwl i werthu'r pysgod a'r cimychiaid gâi eu dal yma. Yn wir roedd merched Enlli yn fwy ffasiynol na merched y Tir Mawr!

Ond roedd atyniadau a datblygiadau yn denu'r boblogaeth a'r angen i groesi'r Swnt yn aml yn gwneud bywyd yr ynyswyr yn anodd, o'i gymharu â phobl y Tir Mawr. Dirywiodd y boblogaeth a bu allfudiad yn niwedd y 1920au.

Erbyn hyn fodd bynnag cafodd yr ynys ail fywyd ac mae'n dal i fod yn atyniad i bererinion cyfoes.



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government





## Pererinion Enlli



*Olion yr abaty a'r capel yn y cefndir*

Mae cyfeiriad at Ynys Enlli fel Rhufain Cymru, a byddai tri ymweliad â'r ynys gyfwerth ag un ymweliad â'r Ddinas Sanctaidd.

Yn ôl y sôn, Cadfan mynach o Lydaw a'i ddilynwyr, pobl fel Lleuddad, Hywyn a Maelrhys sefydlodd y fynachlog gyntaf ar Enlli yn y 6edG. Dyma'r lle y daeth 1,200 o fynaich Bangor-is-y-coed i geisio nodded wedi ymosodiad ar eu mynachlog yn 616 A.D.

Mae dwy garreg fedd yn y capel yn dystiolaeth fod Cristnogion wedi'u claddu yma tua'r 9fedG.

Yma i derfynu eu hoes daeth seintiau amlwg fel Dyfrig, Deiniol a Chybi. Mae Carreg Goffa Cybi ar ei harfordir gorllewinol. Cafodd corff Dyfrig ei symud oddi yma tua 1120 A.D. i'w gladdu yn Llandaf. Pan ymwelodd Gerallt Gymro â Nefyn yn 1188 soniodd am y Culdeaid, mynaich ymroddgar Enlli a honnai fod yr awyr mor bur ac iach yno fel na fyddai neb yn marw arni ond o henaint.

Gormodiaeth yn siŵr ydi'r honiad fod ugain mil o saint wedi'u claddu yno. Er hynny profiad cyffredin iawn i ffermwyr fydd codi esgyrn dynol wrth aredig y tir fel y penglog yn 1995 â darn arian o tua 1070 yn ei geg.

Cafodd y clas cyntaf ei sefydlu ym Mhen Llŷn ar lethrau Mynydd Anelog ac yna'i symud i Aberdaron cyn gweld fod Enlli yn cynnig gwell encil. Tua 1200 ymunodd y mynaich hyn â'r Awstiniad – Urdd â'i delfrydau'n debyg iawn i'r Culdeaid. Yr Urdd gyfoethog hon gododd yr abaty a daeth â chyfoeth i Abaty Enlli. Y cyfoeth hwnnw ddenodd ymosodiadau bygythiol ar yr abaty, fel yr un gan John Bannerburg a'i 30 milwr ym 1346 a gwŷr Dilyn yn ddiweddarach.

Byddai'r pererinion wedi cwblhau tasgau eu penyd yn rhoi ychydig geiniogau i'r abaty. Roedd croesi'r Swnt yn ddiogel yn siŵr o fod yn dasg arall anodd ei chyflawni ar dywydd stormus.

Dirywio wnaeth yr abaty ac erbyn yr 16fegG dim ond £2 y flwyddyn ddeuai mewn offrymau. Eto, roedd yr Urdd yn parhau i fod y berchen ar lawer o diroedd yn Llŷn.

Yn niwedd y 1530au cafodd Abaty Enlli ei diddymu fel pob abaty arall. Aed â'r sgrin a'r chwe chloch i Eglwys Llanengan a dadfeiliodd yr adeilad.

Saif y tŵr yn dystiolaeth i lewyrch y gorffennol a phery pererinion i ymweld â'r encilfa hynod hon.

## Y Swnt a'r Môr



Dim ond y morwr mwyaf profiadol ddylai fentro croesi'r Swnt o'r Tir Mawr i Ynys Enlli. Rhaid adnabod patrwm y llanw a'r trai, deall dylanwad siâp y penrhyn ar gerrynt a gorffrydiau, a gallu darllen y tywydd. Roedd cychwyr Aberdaron yn Oes y Pererinion yn deall yr elfennau i'r dim ac yn gwybod yn dda am saith llanw'r Swnt. Fel mae'r enw'n awgrymu croesent o Borth Meudwy (gyda'i enw awgrymog) neu'n syth ar draws o Ffynnon Fair i Fae'r Nant. Erbyn hyn y Cafn yw'r glanfa.

Croesi'r Swnt a chyfathrebu â'r Tir Mawr roddai y trafferthion mwyaf i'r ynyswyr. Pe bai angen meddyg yn Enlli rhaid fyddai cynnau tân ar y mynydd, neu ddau pan fyddai rhywun wedi marw. Byddai trigolion y Tir Mawr wedyn yn ymateb o lethrau'r Mynydd Mawr.

Byddai bron pawb yn berchen ar gwch a byddai pysgod yn gynhaliaeth amheuthun. Gwyddent yn union ble'r oedd tyllau'r crancod ac er mwyn trafod eu lleoliad roedd enwau arnynt i gyd megis Twll Ogo' Wiail, Twll Cyfyng a Thwll Llaw Chwith. Ym Mhenfro, Llŷn ac Enlli yn unig y byddent yn dal cimychiaid i'w gwerthu. Hwyliai cychod Enlli cyn belled â Lerpwl hefo'u helfa.



Roedd ganddynt enwau ar bob craig a chilfach; enwau sy'n parhau ar lafar. Roedd gan nifer ohonynt gysylltiadau hanesyddol, megis Carreg Gybi a Maen Bugel ac mae storïau ddiddorol yn gysylltiedig â'r gweddi. Boddodd meibion Tyddyn Mawr, Penllech ger Trwyn Llancau, ac roedd yr hen fynwent ger Trwyn y Fynwent. Y man lle glaniodd y môr-leidr Harri Morgan yw Ogo' Morgan yn ôl traddodiad. Roedd yr hen drigolion yn ynysig ac ofergoelus. Does ryfedd bod yma Ogor Ellyll ac Ogor Tylwyth Teg.

Ar ôl diddymu'r mynachlogydd bu'r ynys yn noddfa i fôr-ladron a bu'r ynyswyr yn sicr ar eu mantais. Byddai broc môr yn hynod o ddefnyddiol a châi llongdrylliadau eu croesawu. Ond yn aml byddai'n achlysur trist pan gâi corff ei olchi i'r lan.

Y cynnydd yn nhrافnidiaeth y môr ysgogodd y galw am oleudy ar Enlli ac yn 1821 cafodd ei dŵr sgwâr gwyn ei adeiladu. Deil i fflachio'n gyson ond tawelodd y corn niwl. Cafodd lamp newydd ac iddi olau coch ei gosod ym 2014. Gobeithio bellach y bydd llai o adar ymfudol yn cael eu denu at y llewyrch a'u lladd. Caiff yr hen lamp yn awr ei harddangos ym Mhorth y Swnt.

## Pobl Enlli



Daeth cyfnod i ben yn niwedd y 1920au wrth i bobl ymfudo o Enlli. Roedd atyniadau'r byd mawr yn denu'r bobl ifanc i'r Tir Mawr ac amgylchiadau byw ar ynys yn anodd i'r rhai hŷn.

Cawsai'r trigolion rai canrifoedd o fywyd tawel digynnwrf gan ennill eu bywoliaeth trwy amaethu a physgota. Roedd marchnad dda i'r pysgod a hwylia gwŷr Enlli cyn belled â Lerpwl i werthu eu cynnyrch. Ond pobl ynysig oedden nhw, yn fewnblyg ac ofergoelus.

Arglwyddi Newborough fu'n berchnogion ar yr ynys o ddechrau'r 17fedG hyd canol yr 20fedG. Roedd perthynas ddymunol rhyngddynt nhw â'r trigolion a bydden nhw'n gyson yn yr haf yn ymweld â'r ynys. Yn 1870au adeiladodd

Arglwydd Newborough III ffermdai, beudai a buarthau cysgodol i'r ynyswyr. Rhoddodd ddewis iddyn nhw naill ai cael melin i falu'r ŷd neu gapel, a hwythau yn dewis capel. Cafodd ei agor yn 1875 a saif yn gadarn hyd heddiw led cae o adfeilion yr abat.

Bu bwlch yn hanes crefydd Enlli ac mae cyfeiriad fod y 'preswylwyr yn hynod o anwar ac annuwiol'. Yn nechrau'r 19fedG bu Robert Williams, un o'r ffermwyr, yn bugeilio ac yn arwain gwasanaethau yn bur llwyddiannus am gyfnod. Teimlai Methodistaidd Calfnaid y Tir Mawr fod angen anfon Cenhadwr i wasanaethu ar Enlli. Dyletswydd ychwanegol y person hwn fyddai rhedeg ysgol a bu'r ddau sefydliad yn llwyddiannus iawn.

Ni châi treth na degwm ei godi ar drigolion Enlli. Cyrhaeddodd Arolygwr Ysgolion Aberdaron a'i fryd ar ymweld ag ysgol Enlli. Ond roedd y cychwyr ar y traeth yn ddrwgdybus ohono gan feddwl ei fod yno i osod treth arnyn nhw, felly doedd neb yn fodlon ei gario trosodd i Enlli.

Bu'r ysgol ar agor bron yn ddi-dor tan 1950 pan gaeodd oherwydd prinder plant. Ar y pryd y Prifardd Dilys Cadwaladr oedd yr athrawes yno.

## Bywyd Gwylt Enlli



Un o brif atyniadau Ynys Enlli yw amrywiaeth ei bywyd gwylt. Mae hi'n Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ac yn Warchodfa Natur Genedlaethol.

Mae'r fferm ar brydles gan y RSPB a thrwy hynny caiff y nodweddion naturiol eu gwarchod. Mae Enlli ar lwybrau ymfudo adar yn y gwanwyn a'r hydref a chaiff gwybodaeth ei gasglu am y nifer rhyfeddol o adar sy'n galw ar yr ynys ar eu teithiau. Y Warden a'r adarwyr sy'n eu cofnodi ac yn flynyddol bydd tua 200 o wahanol rywogaethau'n ymweld â'r ynys. Cafodd Gwylfa Adar a Maes Ynys Enlli ei sefydlu ym 1953 a bydd adroddiad blynyddol manwl ganddynt.





Does dim llygod mawr, nadroedd na llwynogod ar yr ynys a hynny sy'n egluro pam bod adar, megis yr Aderyn Drycin Manaw sydd â'u nythod mewn twnneli yn y ddaear yn magu mor llwyddiannus yma. Yn wir roedd un aderyn drycin ar Enlli'n ddiweddar dros 54 blwydd oed. Dychwelodd y pâl i lethrau'r mynydd i gadw cwmni i'r llurs a'r gwylog.

Bydd y morloi llwyd yn gorweddian ar greigiau'r Honllwyn neu i'w clywed yn canu o Garreg yr Honwy. Mae'r llambedyddiol (llamhidyddion) i'w gweld yn gyson oddi ar yr arfordir a'r dolffiniaid, yr Orca a'r Rossi o dro i dro.

Caiff pryfed a thrychfilod eu cofnodi ac mae'r gwyfynod yno'n niferus iawn.

Dydi llewyrch y goleudy ddim yn garedig wrth yr adar. Cânt eu denu at y golau a'u lladd wrth daro yn erbyn y tŵr. Gwnaed ymdrech i leddfau hyn yn Enlli yn 2014 wrth osod lamp newydd yn y goleudy. Golau coch sydd yn fflachio o'r goleudy bellach a'r gobaith yw na fydd hwn yn denu'r adar fel y golau gwyn. Bydd pethau'n llawer mwy diogel i'r adar ymfudol ond o bosib y bydd llai ohonynt yn dewis glanio ar Ynys Enlli yn y dyfodol.

## Brenin Enlli



King John Williams II

Un o hynodion Ynys Enlli yw iddi fod yn frenhiniaeth. Does neb yn gwybod pryd na pham y cafodd y frenhiniaeth hon ei chreu, ond dywed William Bingley ym 1804 fod brenin wedi'i goroni yno rhyw wyth mlynedd yn gynt. Daeth Arglwydd Newborough a'i osgordd i'r coroni hwnnw gan ddsbarthu hetiau lliwgar i'r ynyswyr. Bu cryn riantwch yno a'r byddigions yn hyrwyddo'r sbloet a hynny efallai ar gorn y trigolion.

Yn 1826 cafodd John Williams, Cristin ei goroni'n Frenin Enlli gan ddefnyddio coron a gyflwynodd yr Arglwydd Newborough iddynt. Mae hon bellach i'w gweld yn Amgueddfa ac Oriel Gwynedd, Bangor. Roedd John Williams yn gweddu i'r dim i fod yn brif ddinesydd Enlli gan ei fod yn forwr ardderchog ac yn asiant i Trinity House, awdurdod y goleudy. Cyflawnodd arwriaeth pan aeth i gynorthwyo'r barc, y 'Lady Douglas' ym mae Aberdaron pan oedd honno mewn trafferthion a'r criw wedi colli rheolaeth arni.

Ond yr eironi yw i John Williams ei hun fodd yn y Swnt ym 1841 a hynny yn weddol agos i arfordir Enlli. Cafodd ei gladdu ym mynwent Aberdaron. Roedd ei wraig wedi rhoi genedigaeth i blentyn dridiau ynghynt a chafodd ei alw'n John.

Yn y man daeth yntau yn Frenin Enlli, John Williams II ond byr fu ei deyrnasiad ef a hwnnw'n un digon trafferthus. Bu'n rhaid ddo fynd i fyw ar y Tir Mawr a bu farw yn wyrwys Pwllheli.

Digwyddodd hyn ym mlynnyddoedd cynnar yr 20fedG. Er nad oedd o linach teulu Cristin, Love Pritchard a'i dilynodd yn frenin. Roedd yn uchel ei barch ymhlith y trigolion ac yn gwasanaethu fel asiant i'r Arglwydd Newborough. Cynigiodd ei wasanaeth yn y Rhyfel Mawr ond cafodd ei wrthod am ei fod dros ei saith deg blwydd oed! Yn ôl rhai dyna pam y bu Enlli yn niwtral drwy gydol y rhyfel.

Symud i'r Tir Mawr wnaeth Love Pritchard adeg yr ymfudo mawr a chartrefu yn Uwchmynydd. Ymwelodd â'r Eisteddfod Genedlaethol ym Mhwlheli yn 1925 a chafodd ef, a'i goron, ei dywys i'r llwyfan fel un o'r Cymry alltud!

Bu farw, yr olaf o Frenhinoedd Enlli, yn 1926 a'i gladdu yn uchel ar yr allt ym mynwent Aberdaron.

## Arthur ac Enlli

Ynys Enlli ydi Ynys Afallon. Mae digon o gysylltiadau a thystiolaeth yn profi hynny, gan gynnwys:

Ym Mhorth Cadlan, ger Aberdaron y cafodd Brwydr Camlan ei hymladd – brwydr olaf y Brenin Arthur. Ystyr 'cadlan' ydi 'maes brwydr'.



Nawddsant Aberdaron ydi Hywyn, a'i fam ef oedd Gwenonwy. Rhwng Trwyn y Penrhyn (SH188252) a Thrwyn Talfarach (SH215257) mae craig fawr yn y môr. Dyma Faen Gwenonwy (SH201259). Roedd Gwenonwy yn chwaer i Arthur.

Yng nghanol y 6edG roedd Brwydr Camlan. Dyna'r cyfnod y sefydlodd Hywyn ei eglwys yn Aberdaron.

Mae'n ddigon posib felly i Gwenonwy a Hywyn fod yn llygad-dyst i Frwydr Camlan.

Medrawd, un a drodd ei gefn ar Arthur, oedd gwrthwynebydd Arthur yn y frwydr. Yn ei fyddin yr oedd tad Medrawd sef Cawrdaf a'i frawd yntau Cadfarch. Nawddsant Eglwys Abererch, ar y ffin rhwng Llŷn ac Eifionydd yw Cawrdaf. Mae Ffynnon Cawrdaf (Insert (SH 392357)) a Ffynnon Cadfarch (Insert (SH 398402)) yn yr ardal.

Cynfil, sefydlodd Eglwys Penrhos (Insert (SH 342337)). Roedd yn un o farchogion y Ford Gron,

Dywed dogfennau fod Ynys Afallon wedi'i lleoli rhwng Borth, Ceredigion ac Arklow, Iwerddon. Enlli yw'r unig ynys o unrhyw faint o fewn yr ardal honno.

Aed ag Arthur i Ynys Afallon ar fwrdd llong gyda thair brenhines yn gofalu amdano. Cafodd ofal mewn palas o wydr gan y Frenhines Morgan a'i naw morwyn.

Roedd Taliesin a Myrddin, yn ôl Sieffre o Fynwy, ar Ynys Enlli; Myrddin yn gwarchod tri thlws ar ddeg Ynys Prydain.

Yn y palas gwydr roedd coed afalau yn tyfu. Onid cyddigwyddiad diddorol yw i goeden Afal Enlli, sy'n fath unigryw, gael ei darganfod ar Enlli yn ddiweddar.

Aeth Myrddin a Thaliesin ag Arthur, ar ôl ei anafu, i Insula pomorum que Fortunata, sef ynys yr afalau – yr ynys ffrwythlon. Oes cysylltiad rhwng Ynys Afallon ac Ynys Afallen?

Yr hen enw ar Swnt Enlli oedd Caswennan. Allan yn y môr i'r de-orllewin o Enlli mae lle stormus. Dyma Gorffrydiau Caswennan, (gwêl map Lewis Morris (1748)). Yma, medd traddodiad y suddodd 'Gwennan', hoff long y Brenin Arthur.

Does gan yr un ynys arall gymaint o dystiolaeth i brofi ei chysylltiadau â'r Brenin Arthur.